## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Mercher 17 Mawrth 2010 am 09.30 a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr J R Bartley, J B Bellis, B Blakeley, J Chamberlain Jones, W L Cowie, J A Davies, J M Davies, M Ll Davies (arsyllwr), P A Dobb, M J Eckersley, G C Evans, I A Gunning, D Hannam, C Hughes, H Ll Jones, G M Kensler, L M Morris, P W Owen, A G Pennington, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Arweinydd Tîm (Cymorth), (G Butler), Swyddog y Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a Catrin Gilkes (Cyfieithydd).

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr I Armstrong, P Duffy, N Hughes, E R Jones, B Smith, D Owen, T R Hughes.

### 819 MATERION BRYS

Dim.

### 820 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac yn gofyn i'r Pwyllgor benderfynu yn eu cylch.

***PENDERFYNWYD*** *bod:-*

*(a) argymhellion y Swyddogion, fel sydd yn yr adroddiad a gyflwynir nawr, yn cael eu cadarnhau a bod caniatadau neu wrthodiadau cynllunio, beth bynnag yw'r achos, yn cael eu rhoi fel sy'n briodol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref 1994 ac/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiadau a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrwyd yn yr atodlen a gyflwynir nawr:-*

(i) Caniatadau

| Rhif Cais | Disgrifiad a Sefyllfa |
|---|---|
| 23/2009/1405/PC | **LLEFARYDD YN ERBYN: M BALDRY**<br>**LLEFARYDD O BLAID: S WILLIAMS**<br>Ar ôl ystyried 2 lythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth: yr ymgeisydd (ar y Datganiad Dylunio a Mynediad) Mr a Mrs R Fardoe, Tandderwen Cottage, Prion<br><br>Cais ôl-weithredol i gadw:<br>A) Newid defnydd o dir amaethyddol fel estyniad i ganolfan hyfforddiant presennol, cyfagos i weithwyr ffatri<br>B) 4 portacabin (mewn hen safle chwarel presennol, sefydledig)<br>C) Amrywiad yn amod 10 cod caniatâd cynllunio 23/2002/0506/PF i gynyddu nifer y cerbydau hyfforddiant ar y safle ar unrhyw adeg o 3 i 5<br>**Chwarel Graig-Lwyd Prion Dinbych** |

**RHOI yn amodol ar yr amodau ychwanegol canlynol mewn perthynas ag**
**Argymhelliad A:**
9. Ni fydd unrhyw beiriannau ar waith, ni fydd unrhyw brosesau'n cael eu cynnal nac unrhyw ddanfoniadau eu cymryd na'u dosbarthu o'r safle yn ystod yr amserau canlynol:
Dydd Llun i ddydd Gwener 1830 i 1700 o'r gloch
Dydd Sadwrn 1600 i 0700 o'r gloch
Nac ar unrhyw amser ar ddydd Sul, Gwyliau Banc neu Wyliau Cyhoeddus
Y rheswm: Er budd amwynder neu eiddo preswyl cyfagos

25/2009/1594/PF **LLEFARYDD O BLAID R COOPER**
Ar ôl ystyried 2 lythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth: Mr S, Mrs E a Miss A Davies Egryn Nantglyn a Jo Brett Segrwyd Mill Cottage Nantglyn
Codi adeilad amaethyddol at ddefnydd storio (yn rhannol ôl-weithredol)
**Glanlliwen Nantglyn Dinbych**
**RHOI**

(ii) Gwrthod (Yn Erbyn Argymhelliad)

23/2009/1368/PS Datganodd y Cynghorydd S Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod yr ystyriaeth ohono
Cymerodd y Cynghorydd R Bartley y gadair am yr eitem hon
Amrywio amod rhif 3 cod caniatâd cynllunio 23/2004/0749/PF i alluogi ar gyfer llenwi carafanau sefydlog at ddiben gwyliau am 12 mis
**Parc Carafanau Llwyn Afon Llanrhaeadr Y.C., Dinbych**
**GWRTHOD**
Gwnaed y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol:
Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, byddai amrywiad arfaethedig yr amod yn caniatáu blwyddyn gron o ddefnydd preswyl o'r carafanau mewn lleoliad cefn gwlad agored, gan roi pwysau annerbyniol ar wasanaethau ac adnoddau lleol, sy'n groes i egwyddorion sylfaenol cynllunio datblygu cynaliadwy, fel yr amlinellir ym Mholisi STRAT 1 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych a Pholisi Cynllunio Cymru.

**821 APÊL METHU PENDERFYNU**

**DATBLYGU 1.35HA O DIR TRWY GODI 40 ANNEDD (GAN GYNNWYS 15 TŶ FFORDDIADWY GYDA BLOC O 6 FFLAT AR GYFER BYW'N ANNIBYNNOL), ARDAL CHWARAE I BLANT AC 1 UNED FUSNES AC ADEILADU MYNEDIAD NEWYDD I GERBYDAU A CHERDDWYR, YSTÂD FASNACHU CEFNDY, FFORDD DERWEN A HEOL CEFNDY, Y RHYL**
**Rhif Cod y Cais: 45/2009/1595/PF**

Cyflwynwyd Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn rhoi gwybod i aelodau am gyflwyniad yr apêl uchod a gofyn am gadarnhad y Pwyllgor o ran ei safiad ar benderfyniad y cais.

***PENDERFYNWYD*** *petai'r Pwyllgor wedi bod mewn sefyllfa i benderfynu ar y cais cynllunio, byddai wedi'i* ***WRTHOD*** *am y rhesymau canlynol:-*

*1. Ystyrir bod lefel arfaethedig y tai a nodir ar y safle cyflogaeth dynodedig hwn yn annerbyniol ac yn groes i Bolisi EMP 10 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych ynghyd â'r arweiniad ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n ceisio atal colli safleoedd cyflogaeth i ddefnyddiau eraill. Mae'r Cyngor yn ystyried y bydd y safle cyflogaeth hir sefydledig hwn yn cyfrannu tuag at anghenion*

*cyflogaeth y Rhyl i'r dyfodol a byddai galluogi lefel y golled arfaethedig i dai yn niweidio gallu'r ardal i fodloni ystod o anghenion cyflogaeth o ystyried argaeledd safleoedd eraill ar gyfer tai.*

2. *Mae'r datblygiad preswyl arfaethedig yn methu darparu ar gyfer y Gofod Hamdden Cymunedol Agored gofynnol ar y safle. O ystyried lleoliad y safle sy'n agos at y defnyddiau diwydiannol presennol ac agosrwydd gofod agored sydd ar gael mewn mannau eraill, ystyrir bod y cynllun yn methu bodloni bwriad Polisi REC 2 ac SPG 4 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych ynghyd â'r arweiniad yn TAN 16 a Pholisi Cynllunio Cymru, Mawrth 2002 sy'n ceisio sicrhau bod cyfleusterau gofod agored digonol ar gael i wasanaethu anghenion y datblygiad arfaethedig.*

**822 EITEM ER GWYBODAETH**

**Fferm Wynt Coedwig Clocaenog**
**Datganiad Drafft yr Ymgynghoriad Cymunedol**
Cyflwynwyd
Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd er gwybodaeth yr aelodau sy'n rhoi gwybod am gynnwys datganiad yr ymgynghoriad cymunedol a'r sylwadau a gyflwynwyd i RWE "npower renewables".

Cofnodwyd y datganiad gyda Chyngor Sir Ddinbych yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynlluniau ynni graddfa fawr a fydd yn cael eu pennu gan yr IPC (y Comisiwn Cynllunio Seilwaith).

***PENDERFYNWYD** cael yr adroddiad er gwybodaeth.*

Clôdd y cyfarfod am 10:45am.

*******